

Cyngor Sir Ddinbych

Polisi Dyledion Prydau Ysgol

Cyflwyniad

Mae dyledion yn cronni mewn ysgolion yn cael effaith andwyol ar amcanion y Gwasanaeth Arlwygo ac yn gwastraffu oriau gwaith gwerthfawr ysgolion a'r awdurdod fel ei gilydd.

Mae'r polisi Dyledion Prydau Ysgol diwygiedig hwn yn adlewyrchu Polisi Dyledion Prydau Ysgol Parent Pay, a nod y ddau bolisi yw lleihau costau i'r awdurdod, a mabwysiadu dull cyson o ran dyledion prydau ysgol a darparu eglurder a chysondeb wrth reoli'r ddyled hwnnw, mae hefyd yn helpu rhieni a staff yr ysgol i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i leihau'r pwysau gweinyddol ar ysgolion, drwy waith partneriaeth parhaus a gwell, a chefnogaeth o'r naill ochr a'r llall, i sicrhau bod pob dyled prydau ysgol yn cael eu gweinyddu'n effeithiol, a lle bo modd, yn cael eu hadennill.

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau ynghylch a ddylid gwrthod rhoi pryd ysgol i blentyn os nad ydynt wedi talu, neu mae hyn yn ddyled prydau ysgol heb eu talu. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth prydau ysgol yn wahanol i unrhyw fusnes arall ac mae'n rhaid i rywun dalu am y prydau ysgol.

Nid yw'n fwriad gan y polisi hwn i atal plant rhag derbyn prydau ysgol, ond yn hytrach gwneud rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau rhienioli a nodi y bydd camau'n cael eu cymryd i leihau dyledion prydau ysgol a helpu i ddatrys unrhyw broblemau y gallan nhw neu'r disgyblion fod yn eu profi, a hynny yn y camau cynnar.

I'r teuluoedd hynny sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, bydd Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion/yr Ysgol yn darparu unrhyw gymorth iddynt. Unwaith i'r prydau ysgol am ddim gael eu hawdurdodi, gall y plentyn/plant dderbyn pryd ysgol am ddim y diwrnod ysgol canlynol.

I'r rhieni a'r ysgolion hynny sy'n defnyddio'r system ParentPay, mae cadw llygad a thalu am brydau ysgol yn hawdd i'w ddefnyddio a'i fonitro.

Bydd rhieni/gofalwyr sydd ddim yn gwneud unrhyw ymdrech i ad-dalu'r ddyled yn cael eu cyfeirio at Bennaeth yr ysgol dan sylw, a chynhelir ymchwiliad i'r amgylchiadau o ran diffyg darpariaeth bwyd ar gyfer y plentyn/plant. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd hyn yn angenrheidiol, ond bydd unrhyw bryderon o ran materion Diogelu posibl yn cael eu codi gyda Phennaeth yr ysgol i ddechrau. Mae gan HOLL staff ddyletswydd i ofyn y cwestiynau priodol a chyfeirio unrhyw bryderon mewn perthynas â Diogelu, yn unol â'r polisi Diogelu.

Gweithdrefn ar gyfer Talu am Brydau Ysgol a Chasglu Dyledion Prydau Ysgol

Dylid talu am brydau ysgol cyn i'r prydau ysgol gael eu cymryd/bwyta gan y disgybl/disgyblion.

Gellir talu am Brydau Ysgol trwy'r dulliau canlynol:

*Arian Parod.

*Siec

*Parent pay

*Neu gerdyn debyd drwy gysylltu â'r swyddfa arlwy

*Yn gyffredinol, bydd ysgolion yn cysylltu â rhieni/gofalwyr pan fydd cyfrifon yn mynd i ddyledion, a hynny fel arfer drwy gyfathrebiad llafar gyda'r rheini/gofalwyr a effeithir, neu drwy ffonio/anfon neges destun/llythyr (mae hyn yn amrywio o Ysgol i Ysgol). **Mae'r broses hon, ym mwyafrif yr achosion yn osgoi'r broses ffurfiol a amlinellir isod:**

Dylid rhoi'r weithdrefn ddyledion ar waith pan:

*Fydd teulu yn cronni dyled o £11 neu fwy.

*Felly dylid rhoi Polisi'r Sir ar Ddyledion Prydau Ysgol ar waith trwy weithredu'r drefn ganlynol:

Atgyfeirio ôl-ddyledion prydau ysgol

Cynigir mai ychydig iawn o ddyled y dylid mynd iddo ac er mwyn cyflawni hyn, y byddai diffyg talu am werth **1 wythnos o brydau ysgol** yn peri i lythyr safonol (gweler esiampl o lythyr safonol yn Atodiad A), gael ei anfon gan wasanaeth Arlwy Ysgolion.

Dylid cyfeirio dyledion sydd dros £11.00 at yr Adran Weinyddol Arlwy erbyn 2.30pm bob dydd Gwener, er mwyn cynhyrchu copi o Atodiad A a'i bostio i'r rhiant / gofalwr ar bost dosbarth cyntaf ar y diwrnod hwnnw. Gall hyn fod ar ffurf e-bost at:

Lyndsey.Cassidy@denbighshire.gov.uk. Y wybodaeth sydd ei angen i ysgogi gweithredu yw: Enw'r disgybl, cyfeiriad, rhif ffôn a swm y ddyled sydd heb ei dalu.

Wedi'i gynnwys yn y llythyr hwn fydd eglurhad cryno am Hawliau Prydau Ysgol am Ddim a rhif cyswllt y Tîm Budd-daliadau, a fydd yn gallu cynorthwyo rhieni/gofalwyr mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol/hawliad Prydau Ysgol am Ddim.

Rhaid gweithredu yn ystod y camau cynnar, er mwyn osgoi ôl-ddyledion arian cinio rhag cronni i bwynt tu hwnt i'r hyn all rieni ei fforddio a bydd hyn hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau posib' eraill h.y. colli arian cinio, bwlio ac ati.

Os fydd plentyn/plant yn cyrraedd yr ysgol ar ôl derbyn llythyr dyledion prydau ysgol, heb daliad neu becyn bwyd, bydd yr Ysgol yn hysbysu gwasanaeth Arlwy Ysgolion, a bydd yr Ysgol yn cysylltu â'r rhiant / gofalwr drwy ffonio/anfon neges destun i wneud trefniadau cinio i'r plentyn a'u cyfeirio at Wasanaeth Arlwy Ysgolion a fydd yn trafod talu'r arian sydd heb ei dalu/ cynlluniau talu yn y dyfodol / cyfeirio at Brydau Ysgol am Ddim (os yw'n gymwys – gweler isod).

Os fydd rhieni / gofalwyr sy'n mynd i ddyled, ar ôl hynny'n cael hawl i Brydau Ysgol am Ddim, yna dylai'r ysgol hysbysu'r adran weinyddol Arlwy Ysgolion ar 01824 712119, cyn gynted â bo hynny'n ymarferol er mwyn adolygu'r ddyled Prydau Ysgol.

Os na fydd yr ysgol yn cysylltu â'r gwasanaeth Arlwy Ysgolion drwy eu hysbysu am ddyled, (ac felly'n caniatáu i ddyled ysgol fynd tu hwnt i £11.00), bydd y Gwasanaeth Arlwy yn codi'r dyledion sydd heb eu talu ar gyllideb yr ysgol. Hysbysir y Pennaeth a Rheolwyr Busnes a Chyllid. Os yw disgybl yn mynd i ddyled ac yn symud i Ysgol o fewn Cyngor Sir Ddinbych, bydd y Gwasanaeth Arlwy Ysgolion yn gweithio gyda'r ysgolion ynghlwm, a bydd y ddyled yn cael ei drosglwyddo gyda'r disgybl.

Os oes gan riant/ofalwr ddyled heb eu talu ac yn stopio defnyddio Gwasanaeth Arlwy Ysgolion, bydd y Gwasanaeth yn trosglwyddo'r ddyled gyda'r disgybl i'r Ysgol Uwchradd, os yw'r Ysgol o fewn Sir Ddinbych.

Yn Atodiad B mae siart lif sy'n crynhoi'r wybodaeth uchod, mewn fformat tabl eglur, er hwylustod.

Ni chaniateir i staff ysgol fynd i ddyled, a rhaid talu am brydau ymlaen llaw, fel y disgyblion. Bydd rhaid i ysgolion sy'n caniatáu i staff ysgol fynd i ddyled, dalu am y ddyled. Bydd y dyledion prydau ysgol yn cael eu hanfon ymlaen i'r Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol priodol gan Foderneiddio Addysg/ Dysgu Gydol Oes, os fydd rhai'n parhau i beidio â thalu am Ddyledion Prydau Ysgol a/neu bryderon o ran aelodau penodol o staff sydd wedi mynd i ddyledion prydau ysgol sy'n fwy na £11.00.

Crynodeb

I sicrhau nad yw'r awdurdod a/neu'r ysgol yr effeithir arni'n cael eu heffeithio'n andwyol gan ddyledion Prydau Ysgol cynyddol, a'r pwysau gweinyddol y mae hyn yn ei achosi i bawb dan sylw, mae'n hanfodol bwysig bod y ddwy ochr yn cydweithio.

Yn bwysicach oll, mae'r polisi hwn yn ei le i sicrhau nad oes unrhyw blentyn ysgol sy'n mynd i ysgol Cyngor Sir Ddinbych yn mynd heb fwyta pryd iach a maethlon yn ystod eu diwrnod ysgol.

Atodiad A i Bolisi Dyledion Prydau Ysgol – Argraffiad Chwefror 2019

Rhowch enw'r cwsmer
Cyfeiriad cwsmer
Cyfeiriad cwsmer
Cyfeiriad cwsmer
Cyfeiriad cwsmer

Ein cyf/Our ref

Dyddiad/Date

Rhif union/Direct dial 01824 712119

e-bost/e-mail Nigel.highfield@sirdynbych.gov.uk

Nigel.highfield@denbighshire.gov.uk

Annwyl.....,

Ni dderbyniwyd taliad o £ _____ am brydau ysgol a ddarparwyd i: yn Ysgol _____

Talwch am y swm hwn yn llawn drwy ddefnyddio cerdyn debyd drwy ffonio 01824 712119, talu yn Swyddfa'r Ysgol neu roi mwy o arian yn eich cyfrif Parent Pay.

Polisi'r Cyngor yw gwahardd prydau ysgol lle mae dyledion wedi dod i **£11.00**. Felly, o _____, ni fydd _____ yn cael pryd ysgol nes bod y ddyled hon wedi'i thalu.

Felly rhaid i chi sicrhau eich bod yn darparu pecyn bwyd iddynt.

Os byddwch yn talu'r swm sy'n ddyledus, ni fyddwn yn atal prydau ysgol.

Rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu'r swyddfa hon ar 01824 712 119 os ydych yn cael trafferth talu neu os ydych yn derbyn unrhyw rai o'r canlynol (a fyddai'n golygu eich bod yn cael hawlio am Brydau Ysgol am Ddim)

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Cymorth dan Ran VI Deddf Mewnffudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant, cyn belled nad oes hawl gennych i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw eich incwm blynyddol yn fwy na £16,190
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- Credyd Cynhwysol

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich taliad neu eich cynorthwyo ymhellach.

Yn ddiffuant,

Llofnod Pennaeth Gwasanaeth

SIART LIF ÔL-DDYLEDION PRYDAU YSGOL – Atodiad B

**AR UNRHYW ADEG YN YSTOD Y BROSES MAE GAN YR HOLL STAFF
 (STAFF YR YSGOL A STAFF CSDd) DDYLETSWYDD O DAN
 WEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN I OFYN
 CWESTIYNAU PRIODOL A CHYFEIRIO UNRHYW BRYDERON MEWN
 PERTHYNAS Â DIOGELU YN UNOL Â PHOLISI'R ALI**

Trothwy – ôl-ddyledion yn y cyfrif

PROSES ANFFURFIOL – Ysgol i gysylltu â Rhieni/Gofalwyr os yw'r cyfrif yn mynd i ddyled. (Llafar, ffôn, llythyr)

PROSES FFURFIOL - Dylid cyfeirio dyledion sydd dros £11.00 at yr Adran Weinyddol Arlwygo erbyn 2.30pm bob dydd Gwener, er mwyn cynhyrchu'r llythyr perthnasol a'i bostio i'r rhiant / gofalwr ar bost dosbarth cyntaf ar y diwrnod hwnnw. Cynnal gwiriad cymhwysedd prydau ysgol am ddim. *"Ni ddylai cyfanswm dyled teulu fod dros £11.00 waeth faint o blant sydd yn y teulu"* Gall methu â hysbysu'r Adran Arlwygo am ddyled o £11.00 arwain at gostau i'r ysgol. Hysbysu'r rhieni o atal prydau.

Methiant i gysylltu er mwyn talu'r ddyled

Talu'r ddyled – dim mwy o gamau gweithredu

Gwiriadau lles ar lefel diamddiffyniad, statws Amddiffyn Plant, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Trafodaeth gyda'r Pennaeth.

Y ddyled heb ei dalu neu fethiant i gysylltu â'r ALI i sefydlu cynllun talu

Nid yw'r teulu'n ddi-amddiffyn, darparu pecyn bwyd Rhiant / Gofalwr yn talu am y pecyn bwyd Yr un plentyn yn cael ei adael heb bryd

Teulu diamddiffyn

Y disgybl yn parhau i dderbyn pecyn bwyd ac mae'r ddyled yn cynyddu. Ar ôl 1 wythnos, y Gwasanaeth Arlwygo i gysylltu â'r Pennaeth.

Darparu pryd poeth a'u cefnogi

Cynnydd mewn dyled yn cyrraedd trothwy adennill dyled ac yn cael ei atgyfeirio

GWASANAETH ADENNILL DYLEDION